# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Gorffennaf 2018

Amser: 13.45 - 17.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4753

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC<br>Mike Hedges AC (yn lle Rhianon Passmore AC) |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Steve Elliot, Llywodraeth Cymru<br>Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Griffiths, NHS Wales Informatics Service (NWIS) |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas CBE - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC a Rhianon Passmore AC. Roedd Mike Hedges AC yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Speak my language: Overcoming language and communication barriers in public services: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**2.2 Addasiadau Tai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (10 Gorffennaf 2018)**

**2.3 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (10 Gorffennaf 2018)**

**2.4 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (12 Gorffennaf 2018)**

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr y GIG; a Steve Elliot, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

3.2 Cytunodd Dr Goodall i anfon gwybodaeth ychwanegol am nifer o faterion a godwyd.

## 4 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Frances Duffy,

Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru; ac Andrew Griffiths, Prif Weithredwr, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

4.2 Cytunodd Dr Goodall ac Andrew Griffiths i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â nifer o bwyntiau a godwyd.

## 5 Sesiwn ffarwél: Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Cynhaliodd yr Aelodau sesiwn ffarwél gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn iddo ymddeol ar 20 Gorffennaf 2018.

5.2 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor ei ddiolch i Huw am yr holl gefnogaeth a chyngor a roddodd i holl Gadeiryddion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod ei gyfnod fel Archwilydd Cyffredinol, a dymunodd ymddeoliad hir iddo yn llawn hapusrwydd ac iechyd. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod yn gwneud datganiad llawn yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 20 Gorffennaf ond gan mai hwn oedd eitem gyhoeddus olaf Huw yn y Pwyllgor, roedd am nodi ei ddiolch ar y cofnod.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a gafwyd.